PARRY, GRIFFITH (1827-1901), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a llenor.

Enw: Griffith Parry
Dyddiad geni: 1827
Dyddiad marw: 1901
Plentyn: Edmund Wynne Parry
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yng Nghaernarfon fis Rhagfyr 1827; yr oedd ei fam yn chwaer i 'Eryron Gwyllt Walia' (Robert Owen), ac yn nith i John Roberts, Llangwm, a Robert Roberts, Clynnog - priodol fu iddo yntau gyhoeddi *Cofiant a Gweithiau Robert Owen*, 1880, a *Cofiant a Phregethau Robert Roberts*, 1884. Bu yng Ngholeg y Bala (1847-1851), a dechrau pregethu. Yn 1851 dechreuodd fusnes argraffu a gwerthu llyfrau yng Nghaernarfon, gan ddal i bregethu (ordeiniwyd yn 1856); ond ddiwedd 1861 cymerth at y fugeiliaeth : yn Llanrwst 1861-71, Salford 1871-6, Siloh, Aberystwyth, 1876-83, a Charno 1889-1901. Bu'n llywydd y gymanfa gyffredinol (1889), yn llywydd cymdeithasfa'r Gogledd (1895), ac yn olygydd *Y Drysorfa* (1887-91). Yr oedd yn bregethwr hynod raenus, ac yn llenor coeth, yn ddarllenwr eang a dygn - mor gynnar â 1846 yr oedd wedi cyfieithu *Astronomical Discourses* Chalmers. Sgrifennodd lawer i'r *Traethodydd* a'r *Drysorfa*, a'i waith ef yw rhai o ysgrifau pwysicaf y ddau argraffiad o'r *Gwyddoniadur*. Cyhoeddodd hefyd esboniadau Beiblaidd, heblaw'r ddau lyfr a nodwyd. Bu farw 22 Awst 1901 yng Ngharno.

Ail fab iddo oedd EDMUND WYNNE PARRY (1855 - 1897); ganwyd yng Nghaernarfon 8 Awst 1855; addysgwyd yn ysgolion gramadeg Llanrwst a Manceinion; dechreuodd bregethu yn glerc banc; bu yng Ngholeg Aberystwyth (1877-9) a Choleg Lincoln, Rhydychen (1879 - graddiodd yno yn 1883); yn ddiweddarach (1895) enillodd radd B.D. yn S. Andrew's. Bugeiliodd eglwysi Saesneg Aberhonddu (1883) a Rhuthyn (1887) cyn mynd i Goleg y Bala yn athro cynorthwyol (1889) ac wedyn yn bennaeth yr 'Adran Ragbarotoawl'; bu farw yn y Bala 4 Medi 1897. Coethder a lledneisrwydd Wynne Parry a dynnai sylw pawb. Golygodd rai o *Anerchiadau* David Charles Davies yn 1895, ac yn 1896 dug allan *Cofiant a Phregethau David Charles Davies*.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

John Owen, *Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1903

Gweithiau

John Jones, Griffith Parry (gol.), *Pregethau y diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn: gyda rhagdraeth gan y golygydd* (Dinbych 1869)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 101465827

Wikidata: Q20733098

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu